**Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 1 Ebrill 2003**

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl.

**2.49pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
**Cytunwyd ar y datganiad busnes llafar**

**2.57pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: Sefydlu Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer Cymru**

**3.14pm**
**Pwyntiau o Drefn**
**Carwyn Jones – Methiant â chynnal y ddadl ar ddatblygu cynaliadwy ar ddydd Mercher 26 Mawrth. Dywedodd y Llywydd y byddai'n gwahodd y Pwyllgor Busnes i archwilio geiriad y Rheolau Sefydlog perthnasol.**

**Carwyn Jones – Datgelu adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar ELWA i'r BBC**

**3.25pm**
***Ni chafwyd dadl ar y cynnig hwn a chynhaliwyd pleidlais arno yn syth***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.25:**
***NDM1446* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:**

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2003, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003; a

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003, a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.26pm**
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 23.10 a 24.2**
*NDM1447*- Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol:

1) gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10, mewn perthynas â Chymru, ac eithrio dalgylchoedd afonydd Dyfrdwy, Gwy a Hafren, yn cymeradwyo;

(2) gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.2, mewn perthynas â dalgylchoedd afonydd Dyfrdwy, Gwy a Hafren, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud;

The Surface Waters (Fishlife) (Classification) (Amendment) Regulations 2003 y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac yr e-bostiwyd copi ohonynt at Aelodau'r Cynulliad ar 25 Mawrth 2003, ynghyd â Memorandwm Esboniadol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.27pm**
**Cynnig i gymeradwyo newid dros dro i Reol Sefydlog 22 ar gyfer cyfnod yr etholiad**
*NDM1448* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru a Rheol Sefydlog 34:

1) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a e-bostiwyd at yr Aelodau ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mawrth 2003; a

2) yn cymeradwyo'r newidiadau dros dro i'r Rheolau Sefydlog fel y nodir hwy yn adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.28pm**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn o dan Reol Sefydlog 22.27**
*NDM1449* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Siroedd wedi'u Cadw (Newid Ffiniau) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mawrth 2003 ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 25 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 31; Ymatal 8; Yn erbyn 5; Cyfanswm 44
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1450* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Siroedd wedi'u Cadw (Newid Ffiniau) (Cymru) 2003 yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mawrth 2003 ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 25 Mawrth 2003.

*[Noder: Ni osodwyd Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn, gan fod y gofynion trefniadol wedi'u datgymhwyso gan Gabinet y Cynulliad o dan Reol Sefydlog Rhif 22.27 (i), (ii) a (iii).]*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 30; Ymatal 8; Yn erbyn 3; Cyfanswm 41
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.35pm**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn o dan Reol Sefydlog 24**
*NDM1451* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 25 Mawrth 2003.

*Mae rhoi'r Gorchymyn ar waith yng Nghymru yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Derbyniwyd y cynnig**

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 27**
**Cyfarwyddiadau Cymorth Gwladol (Taliadau Gohiriedig) 2003 – *dim cynnig wedi'i gyflwyno***

**3.36pm**
**Cynnig i gymeradwyo Code of Guidance for Local authorities on Allocation of Accommodation and Homelessness o dan Reol Sefydlog 27.2 (iii)**
*NDM1453* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor y Code of Guidance for Local Authorities on Allocation of Accommodation and Homelessness, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mawrth 2003.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod ei fethiant i gysylltu â darparwyr Tai annibynnol wrth gynllunio i ddatrys problem digartrefedd.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod ei fethiant i gydnabod y lleihad parhaus yn stoc dai Awdurdodau Lleol, sydd felly'n cynyddu'r gweithdrefnau biwrocrataidd yn ein cynghorau.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1 i egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 3; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 30
**Gwrthodwyd Gwelliant 1 i egwyddor y Gorchymyn**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2 i egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 3; Ymatal 0; Yn erbyn 31; Cyfanswm 34
**Gwrthodwyd Gwelliant 2 i egwyddor y Gorchymyn**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 37; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 37

**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1454* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 27.2(iii), yn cymeradwyo'r Code of Guidance for Local Authorities on the Allocation of Accommodation and Homelessness, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**3.52pm**
**Dadl am y Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol**
*NDM1455* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn penderfynu mabwysiadu'r strategaeth genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru, a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 25 Mawrth 2003.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu "penderfynu mabwysiadu'r" a rhoi "cydnabod y".

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
' ac yn cyfarwyddo'r Gweinidog i sicrhau bod y strategaeth yn cael ei rhoi ar waith yn llawn gan bawb sydd ynghlwm wrth ei chyflwyno.'

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi ei bod wedi methu â disgrifio na gweithredu cynigion digonol i fynd i'r afael â digartrefedd mewn ardaloedd gwledig.

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi, er bod y strategaeth yn cyfeirio at y targedau yn "Gwell Cymru" a "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru", nid yw'n cydnabod na chaiff y targedau hynny a fydd yn effeithio ar ddigartrefedd eu cyflawni.

**Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi, er bod y strategaeth yn cyfeirio at y cynnydd yn nifer yr achosion o ddadfeddiannu yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'n methu â chyfarwyddo polisïau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol a gwella'r amgylchedd lleol er mwyn caniatáu i Awdurdodau Lleol fod yn fwy effeithlon wrth weinyddu eu stoc dai.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 3; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 38
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 36
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 39
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 2; Ymatal 9; Yn erbyn 29; Cyfanswm 40
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 2; Ymatal 0; Yn erbyn 37; Cyfanswm 39
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Y cynnig**
O Blaid 40; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 40
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.20pm**
**Atal Rheolau Sefydlog**
**Cytunodd y Llywydd i ganiatáu i'r Trefnydd gynnig cynnig heb rybudd o dan Reol Sefydlog 34.5 i atal Rheol sefydlog 5.3 er mwyn dwyn ymlaen y ddadl ganlynol ar Ddatblygu Cynaliadwy:**

**Pleidlais ar y cynnig trefniadol**
O Blaid 38; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 38
**Derbyniwyd y cynnig**

*NDM1445* **-** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r adroddiad ar hynt datblygu cynaliadwy yn 2002-03, a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd ac a anfonwyd at yr Aelodau drwy'r e-bost ar 19 Mawrth 2003, yn cydnabod y cynnydd da a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn galw ar y Gweinidog i gyhoeddi adroddiad terfynol yn ystod Ebrill 2003, wedi'i seilio ar y ddogfen hon.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu 'Croesawu' a rhoi 'Nodi' yn ei le

**Gwelliant 2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)** ***- Ni ddewiswyd***
Dileu 'Croesawu' a rhoi 'Nodi' yn ei le

**Gwelliant 3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl '19 Mawrth 2003' a rhoi yn eu lle;

Yn gresynu at fethiant y Llywodraeth i;

a) gyflwyno'r adroddiad terfynol mewn pryd i'r Cynulliad gynnal dadl arno ac;

b) i gwrdd â'r dyddiadau terfyn a nodir yn y Cynllun Gweithredu.

**Gwelliant 4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru) – *heb ei gynnig***
Dileu 'yn cydnabod y cynnydd da a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf',

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 35
**Gwrthodwyd y Gwelliant 1**

**Gwelliant 2 – ni ddewiswyd**

**Gwelliant 3**
O Blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 34
**Gwrthodwyd y Gwelliant 3**

**Gwelliant 4 – heb ei gynnwys yn ffurfiol**

**Y cynnig**
O Blaid 25; Ymatal 7;Yn erbyn 2; Cyfanswm 34
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.41pm**
**Dadl am adroddiad y Pwyllgor Diwylliant ar Gyfranogiad mewn Chwaraeon**
*NDM1456* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, dan y teitl "Adolygiad Polisi ar Gymryd Rhan mewn Chwaraeon ac Ymarfer Corff", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mawrth 2003. Mae’r adroddiad ar gael hefyd ar safle’r Pwyllgor ar y fewnrwyd
http://cynulliad/wcommittees/Culture/Reports/REPORT%20-%20for%20plenary_w.rtf

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 28
**Derbyniwyd y cynnig**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.23pm

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 2 Ebrill 2003**

**E P Silk**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a Osodwyd ar 28 Mawrth 2003

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Datganiad Gwariant 2003-04 - LD2067
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Datganiad Gwariant 2003-04 : Nodiadau Esboniadol - LD2068

### Dogfennau a Osodwyd ar 27 Mawrth 2003

- Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig - Dyfodol Ffermio Organig yng Nghymru - LD2065
- Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai - Adolygiad Polisi Adfywio Cymunedol Meithrin Gallu Datblygu a Hyfforddi - LD2066

### Dogfennau a Osodwyd ar 26 Mawrth 2003

- The Feeding Stuffs (Amendment) Regulations 2003 - LD2060 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- Explanatory Memorandum - The Feeding Stuffs (Amendment) Regulations 2003 - LD2061 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- Regulatory Appraisal - The Feeding Stuffs (Amendment) Regulations 2003 - LD2062 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- Memorandwm Cywiriadau - Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) 2003 - LD2063
- Memorandwm Cywiriadau - Rheoliadau Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 - LD2064